Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# Sut gallwn ni eich cefnogi chi

Gwybodaeth am cofrestru a sut gallwn ni eich cefnogi chi.

Cyhoeddwyd gyntaf: 15 Chwefror 2024

Diweddariad olaf: 8 Ebrill 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/cyfrifoldebau-ôl-gofrestru/how-we-can-support-you am y fersiwn diweddaraf.

Mae’n rhaid i’r rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru gofrestru gyda ni oherwydd ei fod yn ofyniad cyfreithiol.

Mae rheoleiddio’n amddiffyn y cyhoedd, gan ei fod yn gwneud yn siŵr mai dim ond pobl gymwys a chymwysedig sy’n gallu **darparu gofal a chymorth** mewn rolau lle mae angen cofrestru.

Mae bod ar y Gofrestr yn golygu eich bod chi’n rhan o **weithlu proffesiynol** a gallwch chi ddangos bod gennych chi’r sgiliau a’r wybodaeth i ddarparu gofal a chymorth da i bobl Cymru.

Mae gennym ni lawer o wybodaeth ac adnoddau i gefnogi pobl sy’n gweithio ym maes **gofal cymdeithasol yng Nghymru.**

## Cefnogi chi i gofrestru

- Gallwch chi reoli eich cofrestriad trwy GCCarlein.
- Mae adnoddau i’ch tywys chi trwy’r broses gofrestru.
- Mae’r ddogfen ‘hanfodion cofrestru’ yn cynnwys gwybodaeth am sut i gynnal eich cofrestriad.
- Gallwch chi ddod o hyd i amrywiaeth o adnoddau am ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol Cymru mewn un lle.

## Cefnogi chi i ddatblygu eich gyrfa a darparu gofal a chymorth proffesiynol a diogel

- Mae'r cod ymarfer proffesiynol a'r canllawiau ymarfer yn amlinellu'r safonau mae'n rhaid i weithwyr gofal proffesiynol ddilyn yn eu gwaith.
- Gwybodaeth i'ch helpu chi i gynllunio eich Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).
- Canllawiau i weithwyr ar gwblhau Fframwaith Sefydlu Cymru gyfan a chymwysterau eraill.
- Adnoddau i'ch helpu chi i ddefnyddio Cymraeg yn y gwaith, gan gynnwys cyrsiau Cymraeg Camau, sydd am ddim i weithwyr gofal cymdeithasol.
- Amrywiaeth o fodiwlau dysgu ar-lein.

- Adnoddau am bynciau fel dementia, blynyddoedd cynnar a gofal plant, arweinyddiaeth, deilliannau personol a diogelu.
- Cyfleoedd i fynd i ddigwyddiadau, hyfforddiant a chynadleddau.
- Porth swyddi gyda swyddi gwag cyfredol fel rhan o ymgyrch Gofalwn Cymru.
- Gwybodaeth am ymchwil, data ac arloesedd o fewn gofal cymdeithasol.

## Cefnogi eich iechyd a'ch llesiant

- - Gallwch lawrlwytho'r cerdyn gweithiwr gofal ar GCCarlein. Mae'r cerdyn yn cydnabod pobl sy'n gweithio yn y sector ac yn eu galluogi i fanteisio ar fuddion amrywiol.
  - Mae ein tudalennau llesiant yn cynnwys llawer o wybodaeth i'ch cynorthwyo â'ch llesiant corfforol, meddyliol ac ariannol. Hefyd, mae gwybodaeth am linell gymorth o'r enw Canopi.

## Sut gallwch chi gefnogi pobl eraill sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol

- - Dweud eich dweud trwy gymryd rhan mewn ymgynghoriadau, arolygon a digwyddiadau.
  - Dod yn llysgennad ar gyfer gofal cymdeithasol trwy gynllun Llysgenhadon Gofalwn.

> Sut gallwn ni eich cefnogi
>
> PDF 223KB